# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Mis cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2451A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn parhau i fod â sefyllfa ariannol gref, er bod ei gynllun ariannol tymor canolig cyfredol heb ddatblygu digon 6

Cafodd effaith COVID-19 ar gyllid y Cyngor yn 2020-21 ei chynorthwyo i raddau helaeth gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gyda chyllid ychwanegol tebyg yn ymestyn ar hyn o bryd tan fis Medi 2021 6

Mae cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor heb ddatblygu digon 7

Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu ymhellach yn y flwyddyn ddiwethaf ac maent yn dal i fod ar lefel uchel 10

Mae'r Cyngor yn parhau i danwario yn erbyn ei gyllidebau refeniw a chyfalaf 12

Er bod gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio, nid oes ganddo unrhyw arbedion wedi'u cynllunio pellach o fewn ei gynllun ariannol tymor canolig cyfredol 13

Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa gref o ran hylifedd am nifer o flynyddoedd 15

# Adroddiad cryno

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20[1], cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[2]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfaoedd ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2021.

[1] Archwilio Cymru, Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Mawrth 2020.

[2] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Cynigion ar gyfer gwella

**Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| **Cynnig ar gyfer gwella: cryfhau cynllunio ariannol tymor canolig** | |
| C1 | Dylai'r Cyngor ddatblygu CATC mwy cynhwysfawr a'i roi ar waith. |
| **Cynnig ar gyfer gwella: pennu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol** | |
| C2 | Dylai'r Cyngor archwilio'r prosesau sy'n bodoli ar gyfer pennu ei gyllideb flynyddol, ac ar gyfer ei ymarferion yn ystod y flwyddyn i ddiwygio'r gyllideb a'r modd y mae'n adrodd ar yr alldro.<br>Fel rhan o'r adolygiad, o ystyried y tanwariannau sylweddol y mae'r Cyngor wedi'u profi dros y blynyddoedd diwethaf, dylai asesu a oes angen cryfhau'r broses.<br>Wedyn dylai'r Cyngor adnabod a chymryd unrhyw gamau ar gyfer gwella. |
| **Cynnig ar gyfer gwella: i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch o ran cyllid a nodir yn y CATC, datblygu rhaglen o fanteision ariannol o weithgareddau'r Rhaglen Drawsnewid** | |
| C3 | Wrth ddatblygu ei Raglen Drawsnewid ymhellach, dylai'r Cyngor sicrhau bod y manteision ariannol bwriadedig sy'n deillio ohoni'n cael eu diffinio a'u cyfleu'n glir. Dylai'r Cyngor fonitro ei gynnydd o ran cyflawni'r manteision bwriadedig ac adrodd yn rheolaidd wrth aelodau etholedig ar y deilliannau. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn parhau i fod â sefyllfa ariannol gref, er bod ei gynllun ariannol tymor canolig cyfredol heb ddatblygu digon

### Cafodd effaith COVID-19 ar gyllid y Cyngor yn 2020-21 ei chynorthwyo i raddau helaeth gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gyda chyllid ychwanegol tebyg yn ymestyn ar hyn o bryd tan fis Medi 2021

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

#### Yr hyn a ganfuom

- I helpu i liniaru pwysau ariannol COVID-19, ym mis Gorffennaf 2020 fe sefydlodd y Cyngor gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £2.7 miliwn i gwrdd â chostau ychwanegol posibl heb eu hariannu ac incwm wedi'i golli a allai ddeillio o'r pandemig.
- Mewn blynyddoedd yn y gorffennol roedd y Cyngor wedi rhagweld a phrofi gwarged yn erbyn ei gasgliadau treth gyngor wedi'u cyllidebu. Fodd bynnag, oherwydd effaith COVID-19 a'r cwymp yr oedd y Cyngor yn ei ddisgwyl o ran cyfradd casglu'r drefn gyngor, ni wnaeth ragweld y byddai gwarged o ran y dreth gyngor a fyddai'n cael ei chasglu ar gyfer 2020-21.
- Ar adeg yr adolygiad hwn, er bod y Cyngor wedi cydnabod bod COVID-19 yn debygol o effeithio'n anffafriol ar ei waith cynllunio ariannol tymor canolig, mae wedi penderfynu ei bod yn rhy gynnar i adnabod a meintioli'r prif effeithiau ariannol.
- Wrth ddatblygu'r gyllideb ar gyfer 2021-22 roedd y Cyngor wedi cydnabod y risg na fyddai cronfa caledi Llywodraeth Cymru yn parhau i mewn i 2021-22. Fodd bynnag, cafodd y risg honno ei lleihau yn ddiweddarach pan gadarnhaodd Llywodraeth Cymru wrth yr holl gynghorau y byddai'n cadw'r gronfa caledi am chwe mis ychwanegol, hyd at 30 Medi 2021.
- Mae **Arddangosyn 2** yn dangos lefel y gwariant ychwanegol a'r incwm wedi'i golli y mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi'u hwynebu oherwydd COVID-19. Mae'r arddangosyn hefyd yn dangos i ba raddau y mae colledion ariannol y Cyngor wedi cael eu cynorthwyo gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, trwy ei chronfa caledi llywodraeth leol.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i’r Cyngor yn ôl yr hyn a nodwyd yn 2020-21[3]**

Mae’r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol y Cyngor a’r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol a wariwyd gan y Cyngor o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £26.3 miliwn |
| Swm yr incwm a gollwyd gan y Cyngor o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £7.7 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol a gafodd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £32.8 miliwn |
| Cost COVID-19 i’r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £1.2 miliwn |

## Mae cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor heb ddatblygu digon

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

7 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a’r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae’n bwriadu ymateb i’r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

### Yr hyn a ganfuom

- Ym mis Mawrth 2020 fe wnaethom nodi nad oedd cynllun ariannol tymor canolig (CATC) y Cyngor yn rhoi adlewyrchiad llawn o’i hanes o danwariant sylweddol nac yn rhoi adlewyrchiad llawn o’i gynlluniau trawsnewid. Roeddem hefyd wedi nodi bod y Cyngor wedi tanwario’i gyllidebau refeniw a

[3] Cyfrifon rheoli anarchwiliedig y Cyngor


chyfalaf yn sylweddol am flynyddoedd lawer, a bod hynny wedi cyfrannu at ei lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy.

- Ar gyfer 2020-21 mae'r Cyngor yn nodi tanwariannau refeniw a chyfalaf pellach.
- Y llynedd fe wnaethom nodi hefyd, er ei bod wedi cael ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2019, mai dim ond cysylltiadau lefel-uchel â'r CATC yr oedd 'Rhaglen Drawsnewid' y Cyngor yn eu cynnwys.
- Ar adeg adolygiad archwilio'r llynedd, dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym y byddai'r Rhaglen Drawsnewid yn cael ei datblygu ymhellach yn ystod 2020 ac yn gynnar yn 2021 i gynnwys gwybodaeth fwy manwl ac ystyrlon yn CATC y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2022-23 a 2025-26
- Nid yw'r Cyngor wedi gwneud ei welliannau arfaethedig i CATC eleni. Rydym yn cydnabod ac yn deall rheswm y Cyngor am beidio â gwneud hynny, gyda'r angen i fynd i'r afael ag effaith COVID-19 ers mis Mawrth 2020.
- Mae CATC[4] y Cyngor a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021 yn rhagweld bwlch o ran cyllid o £21.1 miliwn, ar ôl ystyried cyfres o dybiaethau mewn perthynas ag incwm a gwariant ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2022-23 a 2025-26. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos y bwlch o ran cyllid a nodwyd gan y Cyngor ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24.

[4] Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cynllun Ariannol Tymor Canolig Dangosol – 2022/23 – 2025/26, Y Cyngor 24 Chwefror 2021

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £11.8 miliwn[5]**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i nodi ar gyfer y tair blynedd hyd at fis Mawrth 2024.




- I oleuo'u gwaith cynllunio ariannol ac adnabod eu bylchau o ran cyllid a ragamcanir, mae'r holl gynghorau'n gwneud tybiaethau ynglŷn â ffactorau a fydd yn effeithio ar swm y cyllid a fydd ar gael iddynt mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Roedd prif dybiaethau sylfaenol y Cyngor yn y CATC yn weddol gyson â Chynghorau eraill Cymru.
- Mae'r CATC cyfredol hefyd yn tybio cynnydd graddedig mewn chwyddiant heblaw cyflogau, a hwnnw'n codi i darged Banc Lloegr o 2% erbyn 2025-26.
- Er bod CATC y Cyngor yn cynnwys amcangyfrifon fel y rhai uchod, mae rhai agweddau eraill yn dal heb ddatblygu digon. Er enghraifft, mae'r cynllun yn fyr ac yn darparu gwybodaeth gyfyngedig am bwysau o ran y galw yn y dyfodol y tu hwnt i ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol; nid yw'n adlewyrchu'r cynlluniau trawsnewid uchelgeisiol; ac nid yw'n nodi'n glir beth yw'r risgiau posibl i gydnerthedd ariannol y Cyngor yn y blynyddoedd sydd i ddod.

[5] Ffynonellau;

Ar gyfer 2021-22 Cynigion y Gyllideb ar gyfer 2020/21 a Rhagolwg Tymor Canolig, Y Cyngor 20 Chwefror 2020

Ar gyfer y blynyddoedd 2022-23 a 2032-24 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cynllun Ariannol Tymor Canolig Dangosol - 2022/23 - 2025/26, Y Cyngor 24 Chwefror 2021

- Mae CATC y Cyngor yn darparu trosolwg o sensitifrwydd y tybiaethau o fewn ei ragolwg hyd at ddiwedd 2025-26. Er enghraifft, mae'r CATC yn datgan y byddai cynnydd o 2% yng nghyllid Llywodraeth Cymru bob blwyddyn yn lleihau'r gofyniad posibl am arbedion dros bedair blynedd i £9.2 miliwn o £21.1 miliwn. I'r gwrthwyneb, mae'r CATC yn datgan y byddai sefyllfa 'arian gwastad' yn cynyddu'r gofyniad posibl am arbedion i £32.7 miliwn.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi ehangu cwmpas ei Raglen Trawsnewid i adlewyrchu'r newidiadau a achoswyd gan COVID-19. Bellach mae'r Rhaglen yn cynnwys deg adolygiad corfforaethol[6] sy'n canolbwyntio ar newid yn sylfaenol y modd y mae'r Cyngor yn gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau.
- Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor yn cydnabod, er bod camau cychwynnol y Rhaglen bellach yn mynd rhagddynt, nad yw ei deilliannau a'i manteision, gan gynnwys y manteision ariannol, wedi cael eu datblygu'n llawn eto. Mae'r Cyngor yn bwriadu eu datblygu erbyn hydref 2021. Gall y manteision ariannol posibl sy'n deillio o'r Rhaglen gyfrannu at nod y Cyngor i gau ei fwlch o ran cyllid a ragamcanir.

## Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu ymhellach yn y flwyddyn ddiwethaf ac maent yn dal i fod ar lefel uchel

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

8 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

- Y llynedd fe wnaethom nodi bod gan y Cyngor lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy. Ers hynny, dros y flwyddyn ddiwethaf mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi cynyddu ymhellach. Mae **Arddangosyn 4** yn dangos, ar 31 Mawrth 2020, bod gan y Cyngor

[6] Ffynhonnell: Cryfhau Tîm Caerffili, a gyflwynwyd i Gabinet y Cyngor ar 22 Gorffennaf 2020.

gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £100.5 miliwn, a oedd yn cynrychioli 29.2% o 'gost net ei wasanaethau' yn 2019-20. Y ganran hon oedd yr ail uchaf ymhlith cynghorau Cymru yn 2019-20.

- Ym mis Chwefror 2021 cyhoeddodd y Cyngor ei Fframwaith Llunio Lle a Llesiant. Y fframwaith hwn yw strategaeth gyfalaf y Cyngor sy'n nodi ei fuddsoddiadau cyfalaf bwriadedig. Mae'r Cyngor wedi clustnodi rhyw £30 miliwn o'i gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar gyfer y buddsoddiadau a fyddai, gyda chyllid allanol, o bosibl yn gallu bod yn gyfanswm o £231 miliwn o 2021-23 ac o bosibl y tu hwnt i hynny.
- Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021-22 hefyd yn gwneud defnydd strategol o £0.368 miliwn o gronfa wrth gefn o £1.8m, a glustnodwyd yn flaenorol gan y Cyngor ar cyfer cyflawni'r CATC, i benodi pedwar rheolwr prosiect am gyfnod penodedig. Dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym fod y penodiadau hynny'n hollbwysig i gynyddu cyflymder y broses o gyflawni ei Raglen Drawsnewid a'i Fframwaith Llunio Lle a Llesiant.

**Arddangosyn 4: dadansoddiad o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy blynyddol a chost net gwasanaethau**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor ar gyfer y pedair blynedd hyd at 2019-20, fel cyfran o gost net ei wasanaethau.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [7] | 336.0 | 335.4 | 343.2 | 344.5 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [8] | 82.4 | 87.0 | 90.9 | 100.5 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau | 24.5 | 26.0 | 26.5 | 29.2 |
| Safle o'i gymharu â holl gynghorau Cymru[9] | 4ydd | 4ydd | 4ydd | ail |

- Mae'r Cyngor yn disgwyl nodi y bydd ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n cynyddu i £116 miliwn ar ddiwedd 2020-21


[7] Ffynhonnell: datganiad cyfrifon archwiliedig blynyddol. Mae'r ffigyrau'n seiliedig ar gost net gwasanaethau, heb gynnwys ffigyrau'r cyfrif refeniw tai, a chan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion

[8] Ffynhonnell: datganiad cyfrifon archwiliedig blynyddol.

[9] 1af yw'r ganran uchaf ar gyfer Cymru.

**Arddangosyn 5: cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau**

Mae'r graff hwn yn dangos cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor fel canran o gost net gwasanaethau o'i gymharu â'r Cynghorau eraill yng Nghymru.




## Mae'r Cyngor yn parhau i danwario yn erbyn ei gyllidebau refeniw a chyfalaf

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

9 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

- Y llynedd fe wnaethom nodi bod y Cyngor wedi tanwario'i gyllidebau refeniw a chyfalaf yn sylweddol am nifer o flynyddoedd, hyd at 2019-20.
- Yn seiliedig ar alldro dros dro'r Cyngor ar gyfer 2020-21, mae'r Cyngor yn nodi tanwariant o £36.8 miliwn yn erbyn ei gyllideb refeniw o £356 miliwn ar gyfer 2020-21, sy'n danwariant o 10.3%.[10] Dywedodd swyddogion wrthym fod cyfran o'r tanwariant hwn yn deillio o gyllid grant ychwanegol sy'n gysylltiedig â Covid.

[10] Ffynhonnell – alldro dros dro i gael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 7 Gorffennaf 2021

- Mae sefyllfa alldro cyfalaf dros dro’r Cyngor ar gyfer 2020-21 yn danwariant o £28.8 miliwn[11].
- Mae **Arddangosyn 6** yn dangos, ar gyfer y pum mlynedd ariannol hyd at 2020-21 bod y Cyngor wedi tanwario’i gyllidebau refeniw o £79.8 miliwn.

**Arddangosyn 6: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae’r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu’r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pum mlynedd ddiwethaf.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21[12] |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau [13] | 324.4 | 325.4 | 332.0 | 337.7 | 356.1 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol £ miliynau[14] | 313.7 | 316.7 | 320.3 | 325.8 | 319.3 |
| Swm y gorwariant £ miliynau | 10.7 | 8.7 | 11.7 | 11.9 | 36.8 |
| Gwahaniaeth canrannol o’i gymharu â’r gyllideb refeniw net | 3.3 | 2.7 | 3.5 | 3.5 | 10.3 |

## Er bod gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei arbedion wedi’u cynllunio, nid oes ganddo unrhyw arbedion wedi’u cynllunio pellach o fewn ei gynllun ariannol tymor canolig cyfredol

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae’r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny’n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy’n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu’r risg naill ai

[11] Ffynhonnell: alldro cyfalaf dros dro i gael ei gyflwyno i’r Cabinet ar 23 Mehefin 2021, heb gynnwys tanwariant cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai o £9.3 miliwn

[12] Ffynhonnell – alldro dros dro i gael ei gyflwyno i’r Cabinet ar 23 Mehefin 2021.

[13] Ffynhonnell: adroddiad naratif y datganiad cyfrifon blynyddol

[14] Ffynhonnell: adroddiad naratif y datganiad cyfrifon blynyddol

na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

## Yr hyn a ganfuom

- Y llynedd fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad bod y Cyngor wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'i arbedion wedi'u cynllunio yn y ddwy flynedd flaenorol a'i fod yn disgwyl gwneud hynny eto ar gyfer 2019-20.
- Ar gyfer 2019-20 fe gyflawnodd y Cyngor £12.7 miliwn (91%) o'i arbedion wedi'u cynllunio o £13.9 miliwn.
- Ar gyfer 2020-21 roedd bwlch y Cyngor o ran cyllid yn £1.076 miliwn; fodd bynnag, fe gytunodd ar arbedion wedi'u cynllunio a oedd yn gyfanswm o £3.007 miliwn a greodd arbedion ymlaen llaw o £1.931 miliwn. Fe wnaeth y Cyngor hefyd adnabod arbedion ychwanegol ymlaen llaw yn ystod 2020-21 gan greu cyfanswm o £2.011 miliwn o arbedion ymlaen llaw.
- Yn ystod 2020-21, cyfyngwyd yn sylweddol ar allu'r Cyngor i gyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio gan COVID-19. Dengys **Arddangosyn 7** fod y Cyngor yn disgwyl cyflawni £1.671 miliwn (55.6%) o'i £3.007 miliwn o arbedion wedi'u cynllunio. Nid yw'r diffygion wedi bod yn broblemus i'r Cyngor oherwydd ei danwariannau parhaus ar gyllidebau a, phe baent wedi bod yn angenrheidiol, ei lefel uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy.
- Defnyddiodd y Cyngor y £2.011 miliwn o arbedion ymlaen llaw o 2020-21 i helpu i bennu ei gyllideb ar gyfer 2021-22, a oedd felly'n golygu nad oedd angen unrhyw arbedion wedi'u cynllunio ar gyfer 2021-22.
- Fodd bynnag, nid yw CATC cyfredol y Cyngor yn cynnwys unrhyw arbedion wedi'u cynllunio i gau'r bwlch o ran cyllid a nodwyd gan y Cyngor o £11.8 miliwn hyd at ddiwedd 2023-24.

**Arddangosyn 7: arbedion a gyflawnwyd fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio**

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed o'i gynlluniau arbedion yn ystod 2017-18, 2018-19 a 2019-20 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd yn ogystal â'i ffigyrau amcangyfrifedig ar gyfer 2020-21.

| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | Amcangyfrif 2020-21[15] |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm arbedion wedi'u cynllunio mewn £ miliynau [16] | 9.0 | 6.8 | 13.9 | 3.007 |
| Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd mewn £ miliynau [17] | 8.95 | 6.4 | 12.7 | 1.671 |
| Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd mewn £ miliynau | 0.05 | 0.4 | 1.2 | 1.336 |
| Canran yr arbedion a gyflawnwyd | 98.5 | 94.3 | 91.4 | 55.6 |

## Mae'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa gref o ran hylifedd am nifer o flynyddoedd

**Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig**

11 15 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

[15] Amcangyfrif y Cyngor

[16] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[17] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

## Yr hyn a ganfuom

- Mae **Arddangosyn 8** yn darparu dadansoddiad o hylifedd y Cyngor ers 2015-16. Dengys y dadansoddiad fod hylifedd y Cyngor yn gryf, gyda chymhareb o 1.5 neu uwch ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Mae cymhareb hylifedd uwch nag 1.0 yn golygu bod gan gyngor fwy o asedau cyfredol, ar yr adeg honno mewn amser, na rhwymedigaethau cyfredol.
- Dengys y dadansoddiad, am y cyfnod o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2019, fod y gymhareb hylifedd wedi gostwng o 2.4 i 1.5. Rheswm allweddol dros y gostyngiad yw bod buddsoddiadau byrdymor y Cyngor, dros y tair blynedd hynny, wedi gostwng rhyw £31 miliwn, tra bo'i fuddsoddiadau hirdymor wedi cynyddu rhyw £17 miliwn.
- Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd ei hylifedd yn aros yn gryf â chymhareb o 2.2 o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021.

**Arddangosyn 8: cymarebau cyfalaf rhwng 2015-16 a 2020-21**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos lefel asedau a rhwymedigaethau cyfredol y Cyngor ar 31 Mawrth bob blwyddyn rhwng 2016 a 2021 yn ogystal â'i hylifedd/gymhareb cyfalaf gweithio

| | 31 Mawrth 2016 | 31 Mawrth 2017 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 | Amcangyfrif 31 Mawrth 2021[18] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol £miliynau [19] | 163.0 | 134.9 | 119.5 | 90.2 | 134.8 | 201.3 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [20] | 67.4 | 68.4 | 71 | 61.4 | 87.6 | 89.9 |
| Hylifedd / Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 2.4 | 2.0 | 1.7 | 1.5 | 1.5 | 2.2 |

[18] Sefyllfa'r fantolen anarchwiliedig ar 2 Mehefin 2021.

[19] Ffynhonnell: datganiad cyfrifon archwiliedig blynyddol (ac eithrio 2020-21).

[20] Ffynhonnell: datganiad cyfrifon archwiliedig blynyddol (ac eithrio 2020-21).

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.